

## Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

### TA5 1UD, NNB Generation Company (HPC) Limited: ymgynghoriad ar drwydded amgylcheddol

#### **Nod yr ymgynghoriad hwn yw gofyn a oes gennych unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i'r cais am drwydded**

Rydym am wneud y penderfyniad gorau wrth drwyddedu. Mae gwrando ar farn pobl eraill yn ein helpu i ystyried pryderon, neu ffactorau amgylcheddol lleol, na fyddem, o bosibl, yn ymwybodol ohonynt fel arall.

Rydym yn ceisio sylwadau ar gais NNB Generation Company (HPC) Limited. Defnyddiwch y rhif cyfeirnod isod wrth wneud sylwadau ar y cais hwn.

- **Rhif y Drwydded:** EPR/ZP3238FH/V004
- **Math o gyfleuster rheoledig:** Mae NNB Generation Company (HPC) Limited wedi gwneud cais i Asiantaeth yr Amgylchedd am amrywiad i'r drwydded amgylcheddol EPR/ZP3238FH/V004. Ar hyn o bryd mae'r safle wedi'i drwyddedu ar gyfer gweithgaredd hylosgi a reoleiddir o dan Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2016. Mae'r drwydded bresennol yn cynnwys gweithgaredd Rhan A(1)(a) Atodlen 1.1, sef llosgi tanwydd mewn teclyn â mewnbwn thermol graddedig o 50 megawat neu fwy. Mae hyn yn caniatáu gweithredu generaduron diesel wrth gefn i ddarparu pŵer trydanol ar y safle rhag ofn colli pŵer oddi ar y safle. Ers i'r drwydded gael ei rhoi'n wreiddiol yn 2013, mae sawl newid dylunio wedi'u gwneud. Byddai'r amrywiad arfaethedig yn caniatáu gosod generaduron wrth gefn ychwanegol a newidiadau i'r rhai sydd eisoes wedi'u caniatáu, i wella gwydnwch y safle rhag ofn colli pŵer oddi ar y safle. Byddai'r newidiadau hyn yn cynyddu cyfanswm mewnbwn thermol cyfunol y gwaith hylosgi i tua 243 MWth, sy'n cynrychioli cynnydd o tua 67 MWth o'i gymharu â'r cyfanswm a ganiatawyd yn flaenorol.

Fel rhan o'r amrywiad arfaethedig, mae NNB Generation Company (HPC) Limited hefyd yn ceisio lleihau'r oriau gweithredu a ganiateir ar gyfer y generaduron wrth gefn i lai na 500 awr y flwyddyn. Nid oes unrhyw newid i'r math o weithgaredd rheoledig a ganiateir o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Wrth benderfynu ar y cais, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn asesu a fydd y gweithredwr yn defnyddio'r technegau gorau sydd ar gael (BAT) i atal neu, lle nad yw hynny'n ymarferol, lleihau allyriadau ac effeithiau ar bobl a'r amgylchedd. Dim ond os bodlonir yr holl ofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol y cyhoeddir trwydded amrywiol.

- **Lleoliad y cyfleuster rheoledig:** Hinkley Point C, Ger Bridgwater, Gwlad yr Haf, TA5 1UD

## **Crynodeb Annhechnegol**

Cyfeiriwch at y crynodeb annhechnegol sy'n egluro'r cais hwn, mewn iaith annhechnegol.

Dylai hyn gynnwys crynodeb o'r cyfleuster rheoledig, y safonau technegol allweddol a'r mesurau rheoli sy'n deillio o'r asesiad risg.

## **Yr hyn fydd yr ymateb yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer**

Byddwn yn ystyried eich ymatebion i'r ymgynghoriad fel rhan o'n penderfyniad ar y drwydded. Os penderfynwn roi'r drwydded, byddwn yn egluro sut y gwnaethom ein penderfyniad a sut yr ydym wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Dim ond os ydym yn credu y bydd niwed i'r amgylchedd, pobl a bywyd gwyllt yn cael ei leihau i'r lleiafswm a bod gan y gweithredwr y gallu i fodloni amodau'r drwydded y byddwn yn rhoi trwydded. Os gall busnes brofi bod y gweithgareddau arfaethedig yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol, gan gynnwys gofynion amgylcheddol, technolegol ac iechyd, yna mae'n ofynnol yn gyfreithiol i roi trwydded, hyd yn oed os nad yw rhai pobl yn cymeradwyo'r penderfyniad.

## **Sut i Ymateb**

Os hoffech wneud sylwadau ar-lein, defnyddiwch yr offeryn ymgynghori ar-lein yn Citizen Space.

Os byddai'n well gennych gyflwyno'ch ymateb drwy e-bost, cysylltwch â [PSCpublicresponse@environment-agency.gov.uk](mailto:PSCpublicresponse@environment-agency.gov.uk)

## **Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth**

Byddwn yn ceisio sicrhau bod sylwadau a dderbynnir ar gael i'r cyhoedd ar gofrestr gyhoeddus Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ni fydd cyfeiriadau e-bost na rhifau ffôn yn cael eu cynnwys yn yr holl sylwadau a wneir ar gael i'r cyhoedd. Ni fydd unrhyw sylwadau lle mae cyfrinachedd wedi'i hawlio yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd gofyn i ni gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn ond ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os ydych wedi gofyn i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, efallai y bydd gofyn i ni ddarparu crynodeb ohono o hyd.

## **Egwyddorion Ymgynghori**

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r meini prawf a nodir yn [Egwyddorion Ymgynghori](#) y llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at: [PSCpublicresponse@environment-agency.gov.uk](mailto:PSCpublicresponse@environment-agency.gov.uk)

customer service line  
03708 506 506

incident hotline  
0800 80 70 60

floodline  
0345 988 1188